O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 445 (Cy. 73)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Maes yr Helmau i Cross Foxes, Gwynedd) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012

Wedi'i wneud	*21 Chwefror 2012*
Yn dod i rym	*5 Mawrth 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylai traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd gael ei gyfyngu a'i waharddoherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall **(2),** yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Mawrth 2012. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Maes yr Helmau i Cross Foxes, Gwynedd) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei defnyddio at y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 07.00 o'r gloch ar 5 Mawrth 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn o gefnffordd yr A470 o Faes yr Helmau i Cross Foxes yn Sir Gwynedd, sy'n ymestyn